

Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth



Yng Nghyngor Bro Morgannwg, rydym wedi ymrwymo i feithrin diwylliant sy'n ymgorffori ein Gwerthoedd craidd, sef Agored, Uchelgeisio, Cydweithio a Balch. Rydym ar genhadaeth i drawsnewid yn barhaus y ffordd yr ydym yn ceisio diogelu a gwella gwasanaethau allweddol ar gyfer ein cymuned amrywiol.

Fel Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth Cyngor Bro Morgannwg, byddwch yn chwarae rhan ganolog wrth arwain y gwaith o ddarparu grŵp craidd o wasanaethau rheng flaen hanfodol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd bywyd trigolion. Gyda ffocws ar reoli gwastraff, priffyrdd, rheoli traffig, gwasanaethau hamdden, parciau a hamdden, a mwy, byddwch yn goruchwyllo cyfeiriad strategol a thrawsnewid parhaus y swyddogaethau hanfodol hyn gan ar yr un pryd sicrhau effeithlonrwydd gweithredol a gwelliant parhaus.

Bydd eich cyfrifoldebau'n cynnwys darparu arweinyddiaeth gref i dimau, sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol, a meithrin partneriaethau cydweithredol gyda rhanddeiliaid i gyflawni amcanion a rennir. Yn ogystal, byddwch yn hyrwyddo agenda trawsnewid y Cyngor, gan drosoli arloesedd ac arferion gorau i wella darparu gwasanaethau a diwallu anghenion esblygol y gymuned.

Mae'r rôl hon yn cynnig cyfle cyffrous i wneud gwahaniaeth diriaethol i fywydau trigolion, tra'n cyfrannu at lwyddiant a chynaliadwyedd cyffredinol Cyngor Bro Morgannwg. Os ydych yn arweinydd deinamig sydd ag angerdd am ragoriaeth gwasanaeth ac ymrwymiad i sbarduno newid cadarnhaol, darllenwch ymlaen a byddem wrth ein bodd yn trafod yn fanylach sut y gallech ein helpu i lunio dyfodol gwasanaethau cymdogaeth yn ein cymuned.

Bydd cyfweiliadau'n cael eu cynnal ar 1 Gorffennaf 2024





Ynglŷn â Chyngor Bro Morgannwg

Croeso i Gyngor Bro Morgannwg, lle gallwch brofi'r cyfuniad perffaith o gydbwysedd boddhaus rhwng gwaith a bywyd a chymuned fywiog. Yng Nghyngor Bro Morgannwg, rydym yn cynnig amgylchedd gwaith gwerth chweil sy'n cyd-fynd â'n gweledigaeth, ein diwylliant a'n gwerthoedd, tra bod y sir ei hun yn gefndir o harddwch naturiol, treftadaeth ddiwylliannol, a theimlad dwys o berthyn.

Yn swatio ar hyd arfordir trawiadol De Cymru, mae Bro Morgannwg yn cynnig cyfuniad unigryw o harddwch naturiol, treftadaeth gyfoethog, a chymunedau bywiog. O gefn gwlad hardd i ganol y trefi prysur, mae'r rhanbarth hwn yn ymfalchïo ag ansawdd bywyd heb ei ail ac ymdeimlad cryf o ysbryd cymunedol.

Mae ein llwyddiant fel un o awdurdodau lleol sy'n perfformio orau Cymru yn cael ei ategu gan ein hymroddiad i arloesi a thrawsnewid. Rydym yn croesawu dyfeisgarwch a chydweithio i fynd i'r afael ag anghenion a phryderon amrywiol ein cymunedau.

Fel Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth Cyngor Bro Morgannwg, cewch gyfle i weithio yn un o'r ardaloedd mwyaf dymunol yn y DU, sy'n enwog am ei thirweddau trawiadol, tirnodau hanesyddol, a chyfleoedd hamdden amrywiol. Gyda milltiroedd o draethau dilychwin, amrywiaeth helaeth o barciau blaenllaw a thiroedd hamdden, a golygfa ddiwylliannol ffyniannus, mae Bro Morgannwg yn cynnig cefndir perffaith ar gyfer darparu gwasanaethau cymdogaeth o ansawdd uchel sy'n gwella llesiant a hapusrwydd ein trigolion.

Fel corff cyhoeddus, rydym yn cymryd effaith hirdymor ein penderfyniadau o ddifrif. Rydym yn ystyried yn gyson sut y bydd ein gweithredoedd yn siapio'r dyfodol, gan sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae ein Hamcanion Llesiant yn ategu'n gytûn ei gilydd, gan greu synergedd sy'n ein gyrru tuag at ddyfodol mwy disglair, mwy llewyrchus i bawb.

Ymunwch â ni yn ein hymrwymiad i greu cymuned lanach, gwyrddach a mwy bywiog ar gyfer cenedlaethau i ddod. Gyda'n gwerthoedd o fod yn agored, gyda'n gilydd, uchelgeisiol a balch wrth wraidd popeth a wnawn, ni fu erioed amser gwell i fod yn rhan o'r daith drawsnewidiol sy'n digwydd ym Mro Morgannwg.

Ein Gwerthoedd



Rydym yn ceisio cofleidio'r gwerthoedd craidd o fod yn agored, cydweithio, yn uchelgeisiol ac yn falch ym mhopeth a wnawn.

Yng Nghyngor Bro Morgannwg, mae ein gwerthoedd yn fwy na geiriau yn unig — nhw yw'r egwyddorion arweiniol sy'n llywio pob penderfyniad a wnawn a phob camau a gymerwn. Wrth i ni gychwyn ar daith o drawsnewid a thwf, mae'n hanfodol bod holl aelodau ein tîm yn deall ac yn ymgorffori'r gwerthoedd hyn, yn enwedig mewn rolau mor hanfodol â Phennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth.

UCHELGEISIOI:

Rydym yn meddwl ymlaen ac yn ceisio cofleidio ffyrdd newydd o weithio gyda'n cydweithwyr, ein partneriaid, preswylwyr a'r rhai sy'n gwneud busnes ym Mro Morgannwg. Rydym yn buddsoddi yn ein dyfodol, boed hynny yn sgiliau ein gweithlu, yr asedau yr ydym yn eu defnyddio neu ein perthynas ag eraill. Rydym yn gwerthfawrogi'r ymddiriedaeth a roddir ynom gan ein cymuned ac rydym yn uchelgeisiol i ddarparu rhagoriaeth ym mhob un a wnawn ar eu rhan.

Fel Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth, byddwch ar flaen y gad wrth yrru ein hagenda uchelgeisiol ar gyfer newid a gwella ymlaen. Drwy osod nodau beiddgar, herio'r status quo, a chofleidio arloesedd a chreadigrwydd, byddwch yn arwain y ffordd wrth drawsnewid ein gwasanaethau cymdogaeth i ddiwallu anghenion esblygol ein trigolion. Gydag uchelgais fel ein gyrru, nid oes terfyn i'r hyn y gallwn ei gyflawni gyda'n gilydd.

AGORED:

Rydym yn meithrin amgylchedd o dryloywder a hygyrchedd. Rydym yn credu mewn cyfathrebu agored, gyda syniadau a gwybodaeth yn llifo'n rhydd. Rydym yn annog deialog, gwranddo gweithredol, ac adborth adeiladol. Drwy fod yn agored, rydym yn creu diwylliant sy'n gwerthfawrogi safbwyntiau amrywiol ac yn hyrwyddo cydweithio, gan sicrhau bod llais pawb yn cael ei glywed.

Fel arweinydd Gwasanaethau Cymdogaeth, byddwch yn gyfrifol am feithrin diwylliant o dryloywder, atebolrwydd a hygyrchedd o fewn eich Ardal Gwasanaeth. Drwy gofleidio bod yn agored yn eich prosesau gwneud penderfyniadau, ymgysylltu â rhanddeiliaid yn agored, a cheisio adborth yn weithredol gan drigolion, byddwch yn sicrhau bod ein gwasanaethau'n ymatebol i anghenion y gymuned ac wedi'u hadeiladu ar sylfaen o ymddiriedaeth.

CYDWEITHIO:

Cydweithio yw congflaen ein llwyddiant. Rydym yn credu, trwy weithio gyda'n gilydd, ein bod yn cyflawni mwy. Rydym yn meithrin diwylliant o waith tîm, lle mae unigolion ar draws adrannau a disgyblaethau yn dod at ei gilydd i fynd i'r afael â heriau, rhannu gwybodaeth, a trosoli eu cryfderau ar y cyd.

Mae Gwasanaethau Cymdogol wrth wraidd ein cymunedau, a thrwy gydweithio a phartneriaeth y gallwn wirioneddol wneud gwahaniaeth. Yn eich rôl, byddwch yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws y cyngor, partneriaid allanol, grwpiau cymunedol, a thrigolion i ddarparu atebion integredig a chyfannol sy'n mynd i'r afael â'r heriau cymhleth sy'n wynebu ein cymdogaethau. Drwy hyrwyddo gyda'ch gilydd, byddwch yn creu ymdeimlad o berthyn a phwrpas a rennir sy'n cryfhau ffabrig ein cymuned.

Ein Gwerthoedd (parhau)



BALCH:

Rydym yn ymfalchïo'n aruthrol mewn gwasanaethu Bro Morgannwg a'i thrigolion. Rydym yn falch o'n cyflawniadau, yr effaith gadarnhaol a wnawn, ac ymroddiad ein tîm. Rydym yn dathlu ein llwyddiannau, mawr a bach, ac yn cydnabod ymdrechion ein staff wrth ddarparu gwasanaethau eithriadol. Mae ein balchder yn deillio o'n hymrwymiad i ragoriaeth, ein cyfraniad i'r gymuned, a'n hymroddiad diysgog i wneud gwahaniaeth.

Mae ein cymdogaethau yn destun balchder i bawb sy'n galw Bro Morgannwg yn gartref, a'n cyfrifoldeb ni yw sicrhau eu bod yn parhau i fod yn lân, diogel, a llefydd bywiog i fyw, gweithio, a chwarae. Drwy feithrin ymdeimlad o falchder yn eich timau, dathlu eu cyflawniadau, ac arddangos effaith gadarnhaol eu gwaith ar y gymuned, byddwch yn ysbrydoli diwylliant o ragoriaeth ac ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau sy'n dyrchafu ein cymdogaethau i uchelfannau newydd.

Trwy gofleidio ein gwerthoedd o Agored, Uchelgais, Cydweithio, a Balchder, rydym yn meithrin amgylchedd gwaith sy'n meithrin ymddiriedaeth, cydweithio, ac ymdeimlad o berthyn. Nid yw'r gwerthoedd hyn ar gyfer rhyngweithio mewnol yn unig - maent yn ymestyn i'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phawb yr ydym yn gweithio gyda ac ar eu cyfer. Rydym wedi ymrwymo i gynnal y gwerthoedd hyn ym mhob agwedd ar ein gwaith, gan sicrhau ein bod yn meithrin perthnasoedd cryf yn seiliedig ar uniondeb, parch, a chyflawniadau a rennir.



Ein Cynlluniau i'r Dyfodol



Bydd cofleidio arloesedd a bod yn agored i syniadau newydd a ffyrdd amgen o weithio yn ystyriaeth allweddol ar gyfer darpariaeth barhaus gwasanaethau rheng flaen ar gyfer pob Cyngor yng Nghymru. Yr her yw cyflwyno'n uniongyrchol, neu alluogi darparu gwasanaethau o ansawdd uchel y mae eu hangen ar ein preswylwyr a'n hymwelwyr ac am y gost orau o flwyddyn i flwyddyn. Dim ond trwy weithio'n agos gyda'n cymunedau lleol y gellir cyflawni ein nod o greu amgylcheddau cynaliadwy, diogel, glân a chroesawgar, sy'n gallu cael eu mwynhau gan bawb. Ennyn cyfrifoldeb a rennir am lawer o'n deilliannau gwasanaeth yw'r ffordd ymlaen ar gyfer ystod o wasanaethau rheng flaen mewn cyfnodau mor heriol a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cymryd rhan arweiniol bwysig yn y daith drawsnewid hon.

TIMAU'R GWASANAETHAU CYMDOGAETH

Mae Gwasanaethau Cymdogol yn cynnwys grŵp o bedwar maes gwasanaeth gweithredol cydgysylltiedig. Mae'r ardaloedd gwasanaeth hyn yn cynnwys gweithrediadau rheng flaen mawr, proffil uchel, sy'n darparu swyddogaethau amrywiol yn uniongyrchol i ddinasyddion Bro Morgannwg ac ymwelwyr â hi. Mae'r term 'Gwasanaethau Cymdogaeth' yn disgrifio natur y gwasanaethau hyn a pha mor weladwy yw eu perfformiad i'r cyhoedd. Y gwasanaethau hyn yw:

• Gweithrediadau Gwasanaethau Cymdogol

Yn cynnwys rheoli gwastraff, casglu gwastraff ac ailgylchu, rheoli Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref, Glanhau Stryd, Rheoli cyrchfannau a chyfleusterau cyhoeddus yn ogystal â chynnal a chadw parciau a thiroedd a chynnal a chadw ac archwiliadau priffyrdd.

• Gwasanaethau Cymdogaeth Byw'n Iach

Mae'r ardal hon yn gyfrifol am wasanaethau hamdden, rheoli contract canolfan hamdden y Cyngor gyda Legacy Leisure, datblygu chwaraeon, trosglwyddo asedau cymunedol, trawsnewid a datblygu asedau, yn ogystal â chanolfannau cymunedol.

• Peirianeg

Mae gan y tîm hwn gyfrifoldeb am Reoli Traffig, Datblygu Priffyrdd, Diogelwch Ffyrdd, Strwythurau, Llifogydd, Diogelu'r Arfordir, Adeiladu a Dyluni Mae'r Gwasanaeth hefyd yn ymdrin â materion draenio ac yn cyflawni rôl statudol Corff Cymeradwyo Draenio Trefol Cynaliadwy (SAB) a'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (LLFA) ac mae'n datblygu cynlluniau rheoli llifogydd yn unol â gofynion y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr.

• Trafnidiaeth a Rheoli Fflyd

Mae'r swyddogaeth hon yn cynnwys sawl tîm pwrpasol. Mae'r tîm Cludiant Teithwyr yn gyfrifol am ddarparu cludiant ysgol a thrafnidiaeth gyhoeddus anghenion dysgu prif ffrwd ac ychwanegol. Mae'r tîm Rheoli Fflyd a Chadw Cerbydau yn gyfrifol am ddarparu cerbydau a phlanhigion i adrannau mewnol y Cyngor a sefydliadau â chymorth, cynnal gwiriadau MOTs cyhoeddus a cherbydau tacsï a rhedeg cynllun trafndiaeth gymunedol y Cynghorau, Greenlinks. Mae'r tîm Gorfodi yn ymgymryd â gweithgareddau gorfodi gan gynnwys Gorfodi Sifil o gyfyngiadau Parcio, ymchwilio i dipio anghyfreithlon, postio anghyfreithlon, troseddau sbwriel, rheoli gwastraff (masnachol a phreswyl), cerbydau wedi'u gadael, rheoli



Ein Cynlluniau i'r Dyfodol (parhau)

cŵn/baw ynghyd â gorfodi PSPO a Bye Law am droseddau megis pysgota, nofio, gwersylla neu waharddiadau alcohol. Mae'r tîm Trafnidiaeth Gynaliadwy a Teithio Llesol yn arwain ar brosiectau teithio llesol a seilwaith, gwelliannau arosfannau bysiau, pwyntiau gwefru cerbydau trydan a phrosiectau cludiant.

Mae Rheolwr Gweithredol yn ei swydd ar gyfer pob un o'r ardaloedd uchod ac mae'r rheolwyr hyn yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth.

Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych os hoffech drafod y cyfle hwn yn fanylach ac yn edrych ymlaen at dderbyn eich cais.

Miles Punter, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai

E-bost: MEPunter@valeofglamorgan.gov.uk Ffôn: 02920 673101



Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth

Proffil Rôl



Teitl y Swydd	Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth
Cyfeirnod y Swydd	E-EHS-NT001
Gradd	Pennaeth Gwasanaeth
Cyfarwyddiaeth	Yr Amgylchedd a Thai
Lleoliad	Depo'r Alpau, Gwenfô a Gweithio o Bell
Yn atebol i	Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Yn gyfrifol am	Goruchwylio cyfeiriad strategol a'r gwaith o ddarparu gwasanaethau hanfodol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd bywyd trigolion, gan ganolbwyntio ar reoli gwastraff, ailgylchu a glanhau, priffyrdd, rheoli traffig, gwasanaethau fflyd a thrafnidiaeth, gwasanaethau hamdden, parciau a hamdden a gorfodaeth amgylcheddol a pharcio.

Trosolwg o'r Rôl

Yng Nghyngor Bro Morgannwg, rydym wedi ymrwymo i feithrin diwylliant sy'n ymgorffori ein gwerthoedd craidd sef Agored, Gyda'n Gilydd, Uchelgeisiol, a Balch. Ein cenhadaeth yw esblygu a gwella'r ffordd rydym yn gwasanaethu ein cymuned amrywiol, gan sicrhau bod y gwasanaethau sydd eu hangen ar ein trigolion yn parhau i gael eu darparu a sicrhau amgylchedd teg a llewyrchus i'n holl drigolion.

Mae Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth Cyngor Bro Morgannwg yn chwarae rhan ganolog wrth arwain y gwaith o ddarparu gwasanaethau rheng flaen hanfodol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd bywyd trigolion. Gan ganolbwyntio ar ansawdd gwasanaethau a phrofiad y cwsmer, yn hytrach na'r dull penodol o ddarparu gwasanaethau, ac ethos sy'n seiliedig ar egwyddorion gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu a chyfranogiad cymunedol; mae'r rôl yn goruchwylio cyfeiriad strategol, effeithlonrwydd gweithredol, a gwelliant parhaus llawer o swyddogaethau rheng flaen hanfodol y Cyngor.

Ein Gwerthoedd	Ymddygiad	Beth mae'n ei olygu i ni
UCHELGEISIOIOL	Meddwl at y dyfodol, gan groesawu ffyrdd newydd o weithio a buddsoddi yn ein dyfodol	<ul style="list-style-type: none"> ● Croesawu arloesedd a gwelliant parhaus wrth ddarparu gwasanaethau cymdogaeth, gan ystyried ffyrdd newydd o weithio, arferion gorau, ac atebion creadigol i fynd i'r afael â heriau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg. ● Gosod nodau a thargedau uchelgeisiol ar gyfer gwella ansawdd ac effeithlonrwydd Gwasanaethau Cymdogaeth, gan adolygu cynnydd yn rheolaidd ac addasu strategaethau i sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni. ● Dangos arweiniad a gweledigaeth wrth lunio dyfodol Gwasanaethau Cymdogaeth ym Mro Morgannwg, gan ysbrydoli eraill i groesawu newid ac ymdrechu am ragoriaeth yn eu gwaith.



Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth Proffil Rôl (parhau)

	Ymddygiad	Beth mae'n ei olygu i ni
AGORED	Agored i syniadau gwahanol a bod yn atebol am y penderfyniadau rydym yn eu gwneud	<ul style="list-style-type: none"> ● Croesawu tryloywder mewn prosesau gwneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cymdogaeth, gan sicrhau bod gan drigolion a rhanddeiliaid fynediad at wybodaeth a chyfleoedd i ymgysylltu. ● Bod yn bersonol atebol a sicrhau bod y Gwasanaeth yn atebol am ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, gan fynd i'r afael yn agored ag unrhyw heriau neu ddiffygion a chydweithio i ddod o hyd i atebion.
GYDA'N GILYDD	Gweithio fel tîm sy'n ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n partneriaid, sy'n parchu amrywiaeth ac sydd wedi ymrwymo i wasanaethau o safon.	<ul style="list-style-type: none"> ● Gweithio'n agos gyda rhannau eraill o'r Cyngor, grwpiau cymunedol a phartneriaid allanol i nodi nodau a rennir a chyfleoedd i gydweithio i wella Gwasanaethau Cymdogaeth. ● Meithrin diwylliant o waith tîm a chyd-gymorth o fewn y Gwasanaeth, gan annog cydweithio, rhannu gwybodaeth, a dathlu llwyddiannau ar y cyd. ● Croesawu arloesedd a rôl sefydliadau lleol eraill a'r gymuned, wrth ddarparu gwasanaethau yn uniongyrchol lle mae budd i gwsmeriaid a gellir cynnal buddion o'r fath.
BALCH	Balch i wasanaethu ein cymunedau ac i fod yn rhan o Gyngor Bro Morgannwg.	<ul style="list-style-type: none"> ● Ymfalchïo mewn darparu gwasanaethau cymdogaeth o ansawdd uchel sy'n gwella ansawdd bywyd trigolion ac yn cyfrannu at les cyffredinol y gymuned. ● Parchu a dathlu treftadaeth ddiwylliannol a harddwch naturiol Bro Morgannwg, gan ymgorffori arferion cynaliadwy a gwarchod tirnodau hanesyddol a mannau gwyrdd. ● Cydnabod a dathlu gwaith caled ac ymroddiad staff y Gwasanaethau Cymdogaeth, yn ogystal â chyflawniadau a chyfraniadau'r gymuned, gan feithrin ymdeimlad o falchder a pherthyn ymhlith yr holl randdeiliaid.



Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth Proffil Rôl (parhau)

DISGRIFIAD SWYDD:

Fel Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth, byddwch yn:

Arweiniad Strategol:

- Arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu cynlluniau strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymdogaeth, sy'n cyd-fynd â diwylliant, gwerthoedd a Chynllun Corfforaethol y Cyngor.
- Cydweithio ag uwch arweinwyr, cyfoedion ac aelodau etholedig i ddatblygu strategaethau arloesol sy'n darparu gwasanaethau effeithiol, effeithlon ac economaidd i'n cymunedau.
- Chwilio am gyfleoedd o fewn y Gyfarwyddiaeth a thu hwnt iddi i arloesi a thrawsnewid swyddogaethau er mwyn sicrhau gwelliant parhaus ac esblygu i gwrdd â'r cyfleoedd a'r heriau sy'n newid y mae'r Cyngor yn eu hwynebu.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r cyfrifoldebau a amlinellir yn Adran 12 o Gyfansoddiad y Cyngor, gan ganolbwyntio'n benodol ar Wasanaethau Cymdogaeth a Gwasanaethau Hamdden, i gynnal y safonau uchaf o ran darparu a llywodraethu gwasanaethau.
- Gweithio gyda chydweithwyr i sefydlu ac ymwreiddio diwylliant sefydliadol sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r ymddygiadau a'r perfformiad cywir i sicrhau bod canlyniadau sy'n bodloni Cynllun Corfforaethol ac amcanion strategol y Cyngor yn cael eu cyflawni.
- Drwy eich ymddygiad eich hun, dangos esiampl o ran y cymwyseddau arwain ymddygiadol gan hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o ymwreiddio gwerthoedd a chymwyseddau ymddygiadol y Cyngor ar draws pob lefel y sefydliad i adeiladu diwylliant y Cyngor.

Rheoli Gweithredol:

- Goruchwyllo gweithrediadau'r Gwasanaethau Cymdogaeth o ddydd i ddydd, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu i'r safonau uchaf posibl ac yn bodloni anghenion ein trigolion.
- Arwain a rheoli timau, gan ysbrydoli ac ysgogi diwylliant sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac sy'n seiliedig ar werthoedd ar draws y gwasanaeth.
- Monitro perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol (DPAau) a gweithredu mesurau i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd o danberfformio.
- Creu a chyfleu eglurder o ran cyfeiriad a phwrpas staff ar bob lefel yng nghyd-destun nodau ac uchelgeisiau strategol y Cyngor. Arwain, cyfarwyddo ac ysbrydoli pobl o fewn y Gyfarwyddiaeth ac ar draws y Cyngor i gyflawni canlyniadau gwych. Sicrhau bod prosesau ar waith ar gyfer nodi a datblygu talent ar bob lefel.
- Hyrwyddo diwylliant cryf o reoli perfformiad i sicrhau lefelau uchel o berfformiad, bod targedau perfformiad yn cael eu bwrw a bod gwasanaethau'n cael eu gwella a'u datblygu'n barhaus.

Rheolaeth Ariannol:

- Rheoli cyllideb y gwasanaeth yn effeithiol, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n effeithlon ac yn unol â blaenoriaethau strategol.
- Nodi cyfleoedd i arbed costau a chynhyrchu incwm, gan gynyddu gwerth am arian y gwasanaethau a ddarperir.

Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth

Proffil Rôl (parhau)



- Gweithio'n agos gyda chydweithwyr cyllid i ddatblygu cynlluniau a rhagolygon ariannol cadarn ar gyfer yr adrannau.
- Mwyhau incwm a chyfleoedd am arian allanol yn unol â pholisi'r Cyngor.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid:

- Meithrin a chynnal perthnasau cadarnhaol gydag uwch arweinwyr, aelodau etholedig, partneriaid allanol, a'r gymuned, gan gynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfodydd a digwyddiadau yn ôl yr angen.
- Gweithredu fel cennad i'r Cyngor, gan hyrwyddo ein gwerthoedd a'n gweledigaeth ar gyfer dyfodol Gwasanaethau Cymdogaeth.
- Cydweithio â rhanddeiliaid i nodi cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth a mentrau ar y cyd sydd o fudd i'r gymuned.

Arweiniad Trawsnewidiol:

- Gyrru agenda drawsnewid y Cyngor yn ei blaen, gan arwain drwy esiampl ac ysbrydoli eraill i groesawu newid.
- Cefnogi timau drwy gyfnodau o bontio, gan roi arweiniad, sicrwydd a chyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol.
- Hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant ac amrywiaeth o fewn y Gwasanaethau Cymdogaeth, gan sicrhau bod pob gweithiwr yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i rymuso i gyfrannu at ein llwyddiant ar y cyd.

Dyletswyddau Cyffredinol:

- Sicrhau dull ymatebol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer o gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau.
- Ystyried cyfleoedd i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau trwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth.
- Hwyluso'r broses o gyflwyno polisiau, gweithdrefnau ac arfer i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion y Cyngor a chymryd rhan yn y broses honno.
- Sicrhau y caiff egwyddorion cyfle cyfartal eu hintegreiddio a'u dilyn yn weithredol yn y Gyfarwyddiaeth ac ym mhob rhan o'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.
- Sicrhau cydymffurfiaeth barhaol â pholisiau, gweithdrefnau a deddfwriaeth y Cyngor gan gynnwys y rhai hynny'n ymwneud â rheoli cyflogeion, iechyd a diogelwch, cysylltiadau cwsmeriaid, diogelu, gwybodaeth, cydraddoldeb, yr amgylchedd a'r rhai sydd wedi'u nodi yn y Rheolau Ariannol a Gweithdrefnau Contract.

Yn ychwanegol i'r dyletswyddau uchod, bydd disgwyl i ddeiliad y swydd gyflawni unrhyw ddyletswyddau ychwanegol a allai ddeillio o newid amgylchiadau, ond nad ydynt o reidrwydd yn newid natur neu lefel cyfrifoldeb y swydd.



Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth Manyleb Person



<p>1. Profiad</p>	<p>HANFODOL</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Profiad o fod yn uwch reolwr o fewn awdurdod lleol neu amgylchedd tebyg, gyda ffocws cryf ar wasanaethau cymdogaeth. ● Profiad o reoli cyllidebau, dyrannu adnoddau, a chynllunio ariannol mewn lleoliad sector cyhoeddus. ● Profiad o gydweithio â phartneriaid allanol, grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid i gyflwyno mentrau ar y cyd a mwyhau effaith gwasanaethau cymdogaeth. ● Galluoedd datrys problemau a meddwl strategol cryf, gyda hanes o ddatblygu a gweithredu strategaethau effeithiol yn llwyddiannus i wella gwasanaethau a chyflawni amcanion. ● Profiad o ysgogi diwylliant sy'n canolbwyntio ar bobl ac sy'n seiliedig ar werthoedd ar draws sefydliad. 	<p>DYMUNOL</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Profiad o adeiladu timau sy'n perfformio'n dda ac o arwain y sefydliad ehangach yn ysbrydoledig mewn ffordd sy'n ysgogi diwylliant sy'n perfformio'n dda. ● Profiad o arwain a rheoli mentrau newid sefydliadol, gan gynnwys y gallu i hyrwyddo arloesedd o fewn sefydliad mawr a chymhleth. 	<p>PROFIR TRWY</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Ffurflen Gais. ● Cyfweliad.
<p>2. Gwybodaeth</p>	<p>HANFODOL</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Dealltwriaeth o ddeddfwriaeth, polisiau a rheoliadau perthnasol sy'n llywodraethu gweithrediadau llywodraeth leol, yn enwedig mewn meysydd sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdogaeth. ● Dealltwriaeth o'r fframwaith llywodraeth leol a'r gwaith o'i lywodraethu. 	<p>DYMUNOL</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Gwybodaeth am fethodolegau ac offer rheoli prosiectau, gyda'r gallu i gynllunio, gweithredu a gwerthuso prosiectau o fewn amserlenni a chyllidebau penodol. 	<p>PROFIR TRWY</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Ffurflen Gais. ● Cyfweliad.
<p>3. Sgiliau a rhinweddau</p>	<p>HANFODOL</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Y gallu i ddangos esiampl o ran y cymwyseddau arwain ymddygiadol a hyrwyddo gwerthoedd a chymwyseddau ymddygiadol y Cyngor. ● Y gallu i feddwl yn strategol a datblygu a gweithredu strategaethau sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion sefydliadol. ● Sgiliau arwain rhagorol a'r gallu i roi eglurder i'ch tîm ar weledigaeth a phwrpas ei waith. 	<p>DYMUNOL</p>	<p>PROFIR TRWY</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Ffurflen Gais. ● Cyfweliad.

Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth

Manyleb Person (parhau)



<p>3. Sgiliau a rhinweddau (parhau)</p>	<p>HANFODOL</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Hanes cryf o adeiladu a meithrin perthnasoedd gwaith cynhyrchiol, a'r gallu i eirioli dros ragoriaeth, tegwch, a chynwysoldeb. ● Sgiliau cyfathrebu hynod effeithiol, y gallu i ddylanwadu ar eraill gydag effaith a hygredded proffesiynol a'r gallu i gyfleu i gymuned amrywiol. ● Ymroddedig i ddatblygiad proffesiynol ac yn ymwybodol o reoliadau a thueddiadau perthnasol sy'n dod i'r amlwg. ● Y gallu i reoli adnoddau'n effeithiol, gan gynnwys cyllidebau, staffio a chyfleusterau. 	<p>DYMUNOL</p>	<p>PROFIR TRWY</p>
<p>4. Cymhwysterau a hyfforddiant</p>	<p>HANFODOL</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Gradd neu brofiad cyfatebol. ● Cymhwyster proffesiynol perthnasol. 	<p>DYMUNOL</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Cymhwyster arwain a rheoli. ● Cymhwyster neu hyfforddiant rheoli prosiectau. 	<p>PROFIR TRWY</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Ffurflen Gais.
<p>5. Agwedd a chymhelliant</p>	<p>HANFODOL</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Uwch arweinydd brwdfrydig iawn, sy'n gallu dangos esiampl i aelodau o'r tîm ac i gyfoedion. ● Gallu addasu a bod yn hyblyg i ateb amryw heriau. ● Arweinydd ysbrydoledig, sy'n gallu ennyn diddordeb aelodau o'r tîm i berfformio'n eithriadol mewn amgylchedd heriol. ● Hyrwyddwr newid arloesol, sy'n hapus i herio'r sefyllfa bresennol i gyflawni amcanion strategol a datrys problemau. ● Brwdfrydig wrth ddangos esiampl o ran gwerthoedd y Cyngor. 	<p>DYMUNOL</p>	<p>PROFIR TRWY</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Cyfweliad.



Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth Manyleb Person (parhau)

6. Arall

HANFODOL

- Hygredded personol a phroffesiynol.
- Meddu ar gymhelliant, egni a brwdfrydedd i gynnal agenda eang.
- Y gallu i weithio y tu allan i oriau swyddfa arferol a mynychu cyfarfodydd gyda'r nos yn ôl yr angen.
- Y gallu i yrru/teithio ar hyd a lled y Fro neu rhwng lleoliadau fel y bo'n briodol.

DYMUNOL

- Y gallu i ddysgu neu siarad Cymraeg.

PROFIR TRWY

- Ffurflen Gais.
- Interview.

Strwythur Gwasanaethau Cymdogaeth - Mai 2024

